

***Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr  
Abermaw  
Harbour Consultative Committee***

***08 Mawrth / March 2011***

***Adroddiad yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig***

***1 – Ffioedd a Thaliadau***

- 1.1*** Mae'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol nesaf, 2011/12, wedi eu hanfon i'r Swyddogion Statudol a'r Arweinydd Portffolio i'w cymeradwyo. Rhagwelir y bydd yr Arweinydd Portffolio yn cadarnhau'r ffioedd cyn diwedd Mawrth 2011. Er mwyn sicrhau fod ein cleientiaid yn ymwybodol o'r newidiadau mae'r Uned Forwrol wedi anfon copi o'r ffioedd a'r taliadau drafft i'r holl gleientiaid gan bwysleisio fod y ffioedd yn amodol i'w cadarnhau a'u cymeradwyo.
- 1.2*** Mae copi o ffioedd a thaliadau harbyrau Abermaw ac Aberdyfi yn atodol ac fe fydd yr Aelodau yn nodi yr argymhellir fod cynnydd o 2% yn ffioedd a thaliadau'r harbwr i bob cwch fydd yn angori yn yr ardal ddaw o dan awdurdod harbwr Abermaw. Bydd y cynnydd mewn TAW i 20% o'r 4ydd Ionawr 2011 ymlaen yn anffodus yn achosi cynnydd pellach mewn costau i'r holl ddefnyddwyr ond ni fydd hyn yn cyfrannu at yr incwm cyffredinol a achoswyd yn yr harbwr.
- 1.3*** Bydd yr Aelodau hefyd yn sylwi fod cynnig wedi ei gyflwyno yn argymhell fod y ffioedd sy'n ymwneud â Thollau'r Harbwr a Thollau Angori yn cael eu safoni a bod un ffi sengl yn cael ei gosod. O'r 1af Ebrill 2011 argymhellir codi ffi debyg ar yr holl gleientiaid ble bynnag fo eu prif fan byw.
- 1.4*** Rhagwelir fod y cynnydd mewn chwyddiant i harbwr Abermaw am 2011/12 yn 0.25% sydd wedi ei seilio ar nifer o ffactorau sy'n codi a gostwng uwchben lefel chwyddiant (Trydan ac ati) ac a seiliwyd ar gynnydd mewn costau staff o 1% er na fydd unrhyw gynnydd cyflog i staff. Oherwydd gwerthiant asedau yn ddiweddar, a gyfrannodd ychydig at gyfanswm yr incwm a grëwyd yn yr harbwr, mae'r targed incwm cyffredinol wedi ei ostwng o £51,600 i £46,080. O ystyried y gostyngiad yma y cynnydd a ddisgwylir yn yr incwm targed am 2011/12 yw £130. Rhagwelir y bydd cynnydd yn y ffioedd angori ar lefel ychydig uwch na chwyddiant yn pontio'r swm sy'n parhau i gynyddu wrth gymharu'r targed incwm gyda'r incwm gwirioneddol diwedd blwyddyn a grewyd.
- 1.5*** Ynglŷn â harbwr Aberdyfi, y targed incwm cyffredinol am 2010/11 yw £39,270. Mae'r cynnydd chwyddiant disgwylidig i Aberdyfi yn 1.53%, fydd yn achosi cynnydd o £600 i'r targed incwm cyffredinol.
- 1.6*** Bydd yr Aelodau yn ymwybodol nad yw targed incwm Abermaw na harbwr Aberdyfi wedi cael eu cwrdd am nifer o flynyddoedd ac fel y disgwylir mewn amgylchiadau ariannol difrifol cafodd mesurau pellach ar arbedion effeithlonrwydd eu nodi a'u trafod. Bydd angen cymryd camau pellach i sicrhau bod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cyrraedd eu targedau heb gyfaddawdu ar safonau a diogelwch.

- 1.7 Mae'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol hefyd wedi eu cynyddu am y flwyddyn ariannol nesaf. Mae copi o'r ffioedd a'r taliadau i Lansio ac i gofrestru Cychod Pŵer yn atodol.
- 1.8 Y cynnydd yn y targed incwm cyffredinol i'r Uned Forwrol am 2011/12 yw **£57,330** sy'n cymharu gyda tharged wedi ei gynnydd o **£9,070** yn 2010/11 a **£51,020** yn 2009/10. Mae hyn yn cynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol i **£2,219,360** yn 2011/12.

## 2. - Cyllidebau

- 2.1 Mae sefyllfa ariannol harbwr Abermaw ac Aberdyfi am drydydd chwarter y flwyddyn ariannol hyd at 31ain Rhagfyr 2010, yn atodol er gwybodaeth. Bydd yr aelodau yn nodi fod targed incwm harbwr Abermaw am 2010/11 yn **£46,100** a bod cyfanswm yr incwm grewyd yn Abermaw i ddiwedd Rhagfyr 2010 yn **£32,569**. Mae hyn i'w gymharu â chael cyfanswm incwm o **£35,409** am yr un cyfnod y llynedd.
- 2.2 O'r 31ain Rhagfyr 2010, mae'r diffyg mewn incwm i harbwr Abermaw yn **£13,531**. Roedd y diffyg am yr un cyfnod y llynedd yn **£16,601** ac felly mae'r ffigwr hyd yma, er ei fod yn fwy calonogol o'i gymharu gyda'r llynedd, yn dangos yn amlwg bod tuedd gyffredinol a chyson yn y diffyg incwm yn flynyddol. Nid ydym yn rhagweld bod swm sylweddol o incwm yn cael ei greu yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol bresennol ac felly disgwylir na fydd y targed incwm i harbwr Abermaw yn cyrraedd ei darged. Rydym yn darogan y bydd y gwariant cyffredinol oddeutu **+£7,000** dros y targed gofynnol ac mae'r cyfanswm yma'n cynnwys lleihau nifer y staff dros y gaeaf mewn ymdrech i gwrdd â tharged y gyllideb.
- 2.2 Mae cyfanswm y gwariant cyffredinol wedi ystyried y targed incwm ac o ystyried y gorwariant a ragwelir, fe fydd yn rhaid adnabod arbedion ychwanegol o holl benawdau'r gyllideb. Mae hi'n annerbyniol i'r gwariant fod yn uwch na'r gyllideb a ddyrannwyd gan fod yn rhaid i unrhyw orwariant gael ei adnabod yng nghyllideb yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig.
- 2.3 O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol a'r gofyn i adnabod rhagor o arbedion fe fydd 2011/12 yn flwyddyn heriol iawn i'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn enwedig i harbwr Abermaw ac Aberdyfi sy'n dangos eu bod angen cymorth ariannol ychwanegol. Pwysleisir y bydd yn rhaid goresgyn gorwariant a'r diffyg mewn incwm yn enwedig o gofio'r gostyngiad cyffredinol yn y gyllideb sydd ar gael i Gyngor Gwynedd a'r arbedion sydd angen eu hadnabod yn y dyfodol.
- 2.4 O'i gymharu, mae'r targed incwm i Aberdyfi am yr un cyfnod yn **£39,270** ac mae cyfanswm o **£31,003** wedi ei gyrraedd gan adael diffyg yn Aberdyfi o **£7,100**. Er hynny, disgwylir y bydd arbediad o tua **-£14,000** yn y gyllideb wariant a fydd yn ei dro yn dangos tan wariant cyffredinol o tua **-£7,000 yn Aberdyfi** ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. O ystyried y gostyngiad mewn gwariant yn Aberdyfi, rhagwelir y bydd cyfanswm y diffyg/gorwariant i'r ddau harbwr yn cyrraedd y targed.

### 3 Mordwyo

- 3.1 Er gwaethaf y gwyntoedd cryfion a gafwyd llwyddodd yr holl gymhorthion mordwyo i aros yn eu lle yn ystod misoedd cyntaf y gaeaf. Bydd Tŷ'r Drindod yn archwilio'r holl Gymhorthion Mordwyo yn ystod haf 2011.
- 3.2 Mae hi'n hanfodol fod gwaith cynnal yr holl Gymhorthion Mordwyo yn y sianel fordwyo yn cael ei adnabod a'i gwblhau cyn gwyliau'r Pasg sydd yn niwedd mis Ebrill.
- 3.3 Bydd angen adnabod arian o'r gyllideb refeniw bresennol i gwrdd â'r gost o gynnal y Cymhorthion Mordwyo gan fod hyn yn ddyletswydd statudol.  
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Rybuddion i Forwyr yn weithredol yn harbwr Abermaw. Mae'r llusern ar olau'r Glwyd wedi diffodd a bydd Rhybudd i Forwyr yn cael ei gyflwyno. Mae dal angen lleoli llusern fordwyo ar y Glwyd a bydd Swyddog Mordwyo – Harbyrau a'r Harbwr Feistr yn adrodd ymhellach ar hyn.
- 3.4 Mae'r sianel sy'n arwain at yr harbwr mewnol yn Abermaw yn sefydlog iawn ac mae'r gwaith o ail-leoli'r Cymhorthion Mordwyo yn nemor ddim. Mae lleoliad presennol y Cymhorthion Mordwyo yn Abermaw fel a ganlyn:-

Bwi Sianel Fordwyo	52° 42.72' N	004° 04.91' W	– L Fl. 10s
Bwi Bar	52° 42.56' N	004° 04.33' W	– Qk Fl G
Bwi Can Rhif 2	52° 42.57' N	004° 04.14' W	– Fl R. 2s
Bwi Can Mewnol	52° 42.64' N	004° 03.94' W	– Dim Llusern
Golau'r Glwyd			- Fl.R.10s
Morwal			- Fl.R.5s
Bwi Arllwysfa'r Garthffos	52° 43.19' N	004° 05.35' W	– Fl Y.5s

- 3.4 Mae marciwr yr Arllwysfa sy'n dangos pellter y bibell ollwng gyda bwi yr arllwysfa garthffos yn Abermaw yn achosi pryder. Er bod Dŵr Cymru yn ymwybodol o'r diffyg, mae'r Cymhorthydd Mordwyo yn parhau i fod yn ddiffygiol ac mae wedi bod felly am gyfnod sylweddol. Bydd yr Uned Forwrol yn parhau i dynnu sylw Dŵr Cymru at y diffyg yma.
- 3.5 Mae cyflwr cymhorthydd y Glwyd yn parhau yn sefydlog ac mae ymdrechion pellach wedi eu gwneud i sicrhau fod y glwyd yn sefyll i fyny. O ystyried ein bod yn rhagweld y bydd Cymhorthydd y Glwyd yn parhau i fynd yn fwy ansefydlog bydd Cymhorthydd Mordwyo dros dro addas yn cael ei leoli i arnofio yn y sianel i ddangos lleoliad y rhwystr.
- 3.6 Er bod yr Aelodau o'r farn y byddai yn well ganddynt gael cymhorthydd yn union yr un fath yn ei le, mae lleoliad marc y glwyd yn gofyn cael contractwr arbenigol yn rhan o'r gwaith dylunio a'r gwaith o leoli'r Glwyd. Er na fydd Bwi Mordwyo dros dro yn dangos union lleoliad y rhwystr bydd y Cymhorthydd Mordwyo sy'n arnofio, gyda llusern yn sicrhau fod cychod sy'n mordwyo yn y sianel yn cael eu cyfeirio i ffwrdd o'r rhwystr.

- 3.7 Rydym wedi derbyn amcan brisiau cychwynnol i roi'r gwaith allan. sef newid y Glwyd. Rhannwyd amcangyfrifon y gost yn dri rhan sef Dylunio; Cymeradwyo (Caniatadau Statudol) a Chaffael. Mae'r gost gychwynnol a dderbyniwyd yn adnabod y gwaith a nodwyd eisoes yn 12k . Byddai cost ychwanegol i oruchwyllo'r gwaith yn oddeutu 8K. Nid yw'r costau hyn yn cynnwys cyflenwi ac anfon.
- 3.8 Cadarnheir fod yr holl Gymhorthion Mordwyo sy'n parhau i arnofio yn ystod y cylch llanw wedi eu tapio gyda thâp adlewyrchol. Er bod llusern wedi ei gosod ar y Bwiau Mordwyo fe wnaeth yr aelodau ofyn fod mesurau ychwanegol yn cael eu cymryd a fyddai'n galluogi'r morwr i leoli'r bwi pe byddai'r llusern yn diffodd.

#### 4 - Staff

- 4.1 Hysbysebwyd swydd Cymhorthydd Harbwr yn Abermaw yn ystod y tymor a ddaw a chynhelir cyfweiliadau yn ystod mis Mawrth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau ei ddyletswyddau ar y 7fed Ebrill a bydd y penodiad yn cael ei ymestyn i'r 30ain Medi 2011. Mae'r swydd yma'n destun adolygiad a bydd penderfyniad yn cael ei wneud am y posibilrwydd o ail-sefydlu swydd Cymhorthydd Harbwr llawn amser yn Abermaw.

O ystyried y gostyngiad garw mewn arian sydd ar gael i Awdurdodau Lleol, mae hi'n hanfodol fod yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn dangos yn glir fod angen swydd Cymhorthydd Harbwr yn Abermaw ac Aberdyfi drwy gydol y flwyddyn. Cyflwynir dadansoddiad manwl o'r gwaith a wnaed yn Abermaw yn ystod misoedd y gaeaf i'r aelodau gan y Swyddog Morwrol – Harbyrau a'r Harbwr Feistr a bydd y manylion ar gael i'w craffu. Rhoddir pwyslais ar yr angen i ddangos cynhyrchiant ac effeithlonrwydd wrth ymgymryd â gwaith yn yr harbwr yn ystod y gaeaf a heb hyn ni fyddai'n ddoeth ail-sefydlu swydd barhaol lawn amser yn Abermaw.

Er mwyn darparu cyfleoedd i bobl ifanc lleol sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod mwy na chwe mis mae'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig wedi llwyddo i wneud cais am leoliadau gwaith ac ar hyn o bryd mae dau unigolyn o'r ardal wedi cael cyfle i weithio yn Harbwr Abermaw.

Mae eu dyletswyddau yn golygu helpu'r Harbwr Feistr gyda holl agweddau'r gwaith yn yr harbwr ac oddi allan. Bydd cyfleoedd hyfforddi hefyd yn cael eu darparu a bydd cyfleoedd o'r fath gobeithio yn arwain i ragor o gyfleoedd gwaith yn y diwydiant.

Hysbysebwyd swydd Cymhorthydd Harbwr yn Aberdyfi hefyd a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gyflogi o'r 7fed Ebrill i'r 30ain Medi 2011.

- 4.2 Rhagwelir y bydd tri swyddog traeth (uchafswm o 4) yn cael eu penodi i weithio yn ystod mwyafrif yr haf i reoli traeth y Faner Las yn Abermaw a bydd y rhai a benodir yn dechrau ar eu dyletswyddau yng nghanol mis Mehefin. Penodir un Swyddog Traeth tymhorol i Draeth y Faner Las yn Fairbourne fydd hefyd yn dechrau ganol Mehefin.

## 5 – Gwobr Traeth

- 5.1 Rydym yn falch o gael hysbysu'r Aelodau fod yr Uned Forwrol wedi cyflwyno cais am Wobr Traeth y Faner Las o safbwynt traeth Abermaw yn 2011. Llwyddodd ansawdd y dŵr ymdrochi i gyrraedd y Safon Canllaw yn 2010 ac felly, gellir cyflwyno'r cais am Wobr Rhyngwladol y Faner Las.
- 5.2 Yn atodol, mae rhestr fanwl o ganlyniadau profion y dŵr ymdrochi yn Abermaw yn 2010. Bydd yr Aelodau hefyd yn gallu cymharu ansawdd y Dŵr Ymdrochi yn Abermaw gydag Aberdyfi.

Bu traeth Tywyn ar gau i'r cyhoedd yn ystod 2010 oherwydd gwaith amddiffyn yr arfordir sylweddol ar y blaendraeth. O'r herwydd nid oes unrhyw ganlyniadau dŵr ymdrochi am 2010. O ystyried nad oedd unrhyw waith samplu y llynedd, ni fydd yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn gallu cyflwyno cais am Wobr Traeth i Dywyn yn 2011.

## 6 - Materion Cyffredinol

- 6.1 **Consesiynau Traeth** – Mae'r Uned Forwrol yn awdurdodi nifer o gonsesiynau blynyddol i weithredu ar y traeth yn Abermaw yn ystod yr haf. Er nad ydym wedi derbyn unrhyw gais hyd yma, rhagwelir y bydd cais newydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer consesiwn i weithredu gweithgareddau hamdden a reidiau mulod ar y traeth. Un o'r prif atyniadau yw'r trê'n tir sy'n gweithredu ar hyd y promenâd rhwng Ebrill a Medi ac mae cais wedi ei dderbyn i weithredu'r Trê'n Tir yn 2011.

- 6.2 **Motorcross** - Cynhaliwyd Digwyddiad Motor Cross ar y prif draeth yn Abermaw yn ystod penwythnos y 30<sup>ain</sup> a'r 31<sup>ain</sup> Hydref 2010. Er bod hwn yn boblogaidd iawn ac yn denu llawer o ymwelwyr i'r ardal, cafwyd pryderon am yr effaith sydd ganddo ar y traeth. Mae adeiladwaith y cwrs ac yna adfer deunyddiau yn trawsnewid y traeth. Ar ôl y digwyddiad mae natur y traeth yn arbennig o feddal a gall hyn achosi trafferthion i'r rhai sy'n cerdded ar y traeth er mwynhad.

Mae mwyafrif yr ardal a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer y digwyddiad Motocross y tu allan i'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ond yn ardal gymharol fechan tuag at y môr o Ynys y Brawd sydd yn yr ardal gadwraeth. Os yw digwyddiadau yn y dyfodol i'w hawdurdodi bydd angen i'r trefnwyr sicrhau bod y cwrs y tu allan i'r ardal gadwraeth. Roedd pryder hefyd fod twyni embryonig yn agos i'r sarn wedi eu difethaf wrth baratoi cwrs y digwyddiad ac nid yw hyn yn dderbyniol.

- 6.3 **Ardal y Lloc** - Mae'r ardal a ddynodwyd ar gyfer cadw offer morol yn achosi pryder. Yn ddiweddar, mae'r lloc unwaith eto wedi ei defnyddio i gael gwared â dodrefn tŷ. Yn ystod Tachwedd 2010 fe wnaeth staff yr Uned Forwrol symud sawl tunnell o ddeunyddiau o'r lloc ac roedd cost llogi sgip a'r dreth tir-lenwi ei hun yn £600. Mae mesurau diogeledd pellach yn cael eu hystyried ac er y bydd cloi'r rhwystr diogelwch yn achosi anhwylustod byddai yn atal pobl rhag ceisio cael gwared â gwastraff yn anghyfreithlon.

Bydd yr aelodau yn ymwybodol fod y rhai sydd â thrwydded i ddefnyddio'r lloc yn talu ffi. Mae'r incwm gaiff ei greu o ddefnyddio'r tir yn 2010/11 yn £3,760. Roedd yr incwm ychwanegol a gafwyd o storio cychod yn y lloc yn £1,663. Mae cyfanswm yr incwm a grewyd o ddefnydd cyffredinol y lloc yn £5,423. Mae'r incwm yn cyfrannu at gyllideb incwm cyffredinol yr harbwr.

6.4 **Lloches i'r Cyhoedd** - Bydd yr aelodau yn ymwybodol o gais gan Gyngor Tref Abermaw ac un o'r trigolion lleol yn gofyn i'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig i ddymchwel a chael gwared â'r Lloches Cyhoeddus a leolir ar Marine Parade. Mae'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig wedi cyflwyno cyfarwyddyd i'r Uned Eiddo yn gofyn fod contractwr cymwys yn cael ei gomisiynu i ymgymryd â'r gwaith yma. Rhagwelir y bydd y gwaith wedi ei gwblhau cyn y Pasg.

6.4.1 **Pwyntiau Trydan ar y Cei** - Cafodd y pwyntiau cyflenwad trydan a ddefnyddir i roi gwasanaeth ychwanegol i gychod sydd wedi angori ar ochr y cei eu harchwilio yn ystod haf 2010. Yn anffodus, dywed adroddiad y peiriannydd fod y system bresennol wedi ei niweidio i'r fath raddau na ellir caniatáu parhau ei defnyddio ac mae'r cyfenwad wedi ei ddatgysylltu.

Er y byddai o fudd i osod pwyntiau cyflenwad newydd, byddai angen ystyried cam o'r fath yn ofalus iawn yn enwedig o gofio fod y cyflenwad presennol mae'n debyg wedi ei ddifrodi gan gerbydau oedd yn parcio yn anystyriol ar ochr y cei. Bydd y Swyddog Morwrol Harbyrau a'r Harbwr Feistr yn archwilio'r posibilrwydd o newid yr unedau trydan yn barod ar gyfer tymor hwylio'r haf.